Trwydded i storio deunyddiau adeiladu ar y briffordd – Cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn yn aml

Os ydych yn ystyried storio deunyddiau adeiladu tebyg i friciau neu sachau tywod ar y briffordd, bydd rhaid i chi wneud cais am **drwydded deunyddiau** o flaen llaw. Mae'n drosedd i osod unrhywbeth ar y briffordd heb ganiatâd gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol (Deddf Priffyrdd 1980, adran 169.) Mae'n anghyfreithlon i storio unrhyw ddeunyddiau heb drwydded a gallant, o ganlyniad gael eu symud a gellir cymryd camau cyfreithlon yn eich erbyn. Os dymunwch storio deunyddiau ar eich ffordd breifat ni fydd angen trwydded arnoch.

Rydym yn ceisio diwallu'r egwyddorion canlynol wrth drwyddedi deunyddiau sy'n cael eu storio ar y priffyrdd:


- Caniatáu deunyddiau i gael eu lleoli ar y briffordd lle y mae'n ymarferol i wneud hynny
- Cyfyngu'r risg i ddefnyddwyr eraill y briffordd
- Cyfyngu rhwystrau i gerddwyr a thraffig
- Cyfyngu effaith amgylcheddol y deunyddiau sy'n cael eu storio
- Cyfyngu risg difrod i'r briffordd
- Sicrhau ad-daliad am unrhyw ddifrod a achosir
- Amddiffyn buddion cyhoeddus

**Amodau'r Drwydded**

Os ydych am osod deunyddiau adeiladu ar y ffordd, bydd gofyn i chi gydymffurfio â'r amodau canlynol:

- Bydd rhaid i'r deunyddiau gael eu trwyddedi cyn y gallant gael eu gosod ar y ffordd
- Bydd rhaid i'r deunyddiau gael eu ffensio a'u diogelu a'u goleuo yn ystod y nos (i'r safon y disgwylir gan y Cyngor)
- Bydd rhaid i'r deunyddiau gael eu gadael yn daclus a ddim tu hwnt i 1 metr o'r llinell derfyn na'u storio'n uwch na 1 metr.
- Dylid sicrhau fod sianelau a chwteri yn cael eu cadw'n glir er mwyn sicrhau fod dŵr arwyneb yn medru llifo
- Dylid darparu mynediad amgen i gerddwyr ac arwyddion lle mae'r mynediad i'r llwybr troed wedi ei gyfyngu

- Dim cymysgu na gwaredu morter ar y briffordd
- Bydd safleoedd yn cael eu harchwilio cyn i'r drwydded gael ei dyroddi, yn ystod cyfnod y drwydded ac wedi i'r drwydded ddirwyn i ben er mwyn sicrhau fod deunyddiau wedi cael eu gwaredu ac nad oes difrod wedi ei wneud i'r briffordd.
- Nodwch na ellir storio deunyddiau adeiladu ar linellau melyn dwbl. Os cyfyd sefyllfa o'r fath,




gellir ystyried lleoliad amgen mewn ffordd ochr.
- Mae gennym hawl i fynnu fod deunyddiau'n cael eu symud ar unrhyw adeg os yw'n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y briffordd.

**Mae trwyddedai ar y safleoedd yma'n ddilys am 28 diwrnod.**

| Trwydded | Ffi | Diwrnodau |
|---|---|---|
| **Trwydded** | **£35.00** | **28 Diwrnod** |

**Sut i wneud cais am Drwydded Deunyddiau**

Os ydych yn breswylydd neu'n berchen eiddo ac angen trwydded deunyddiau cwblhewch y ffurflen gais ar gyfer Trwydded Deunyddiau Adeiladu.

Mae angen 5 diwrnod gwaith arnom i ystyried a phrosesu cais am drwydded neu cais i adnewyddu trwydded.

Cyn i'r drwydded gael ei chymeradwyo, bydd cyfarfod safle yn cael ei drefnu gan swyddog y priffyrdd â'r preswylydd. Gellir archwilio'r safle am unrhyw ddifrod sydd eisoes yn bodoli a bydd unrhyw amodau ychwanegol yn cael eu pennu tra ar y safle. Bydd y safle yn cael ei archwilio trwy gydol cyfnod y drwydded er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio ag amodau diogelwch y

drwydded. Bydd archwiliad safle terfynol yn cael ei wneud ar ddiwedd cyfnod y drwydded, wedi i'r deunyddiau gael eu gwaredu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddifrod i'r briffordd.

Ni ddylid gosod deunyddiau ar y safle cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau a chyn i'r drwydded gael ei dyroddi.